

BCW/2022/ 4ydd Cyfarfod

Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 10am ddydd Mawrth 13 Rhagfyr 2022 trwy Microsoft Teams.

Yn bresennol:

Mrs Ustus Jefford

Dirprwy Gadeirydd

Pam Whitman

Aseswr (yr Arolwg Ordnans)

Huw Vaughan Thomas
Sam Hartley

Comisiynydd
Comisiynydd

Shereen Williams
Tom Jenkins
Paul Elliott
Carys Vaughan

Ysgrifennydd y Comisiwn
Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn
Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn
Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn

Amser Dechrau: 10.13

Amser Gorffen: 11:53

1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGANIADAU BUDDIANNAU

- 1.1. Datganodd yr Ysgrifennydd fuddiant ym Mhontardawe fel perchennog eiddo.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

- 2.1. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Neil Park, Aseswr (y Swyddfa Ystadegau Gwladol) a Huw Blacker, Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn.

3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

- 3.1. **Cytunodd** y Comisiwn â chofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ddydd Mercher 27 Gorffennaf 2022.

4. MATERION YN CODI

- 4.1. Rhoddodd yr Ysgrifennydd ddiweddariadau ar faterion a gododd o gyfarfod y Comisiwn ar ddydd Mercher 27 Gorffennaf 2022.

Mater 1 – Cyfarfod â Chomisiynwyr Cynorthwyol

- 4.2. **Nodwyd** bod cyfarfod wedi cael ei gynnal ar 13 Medi 2022 gyda'r Comisiynwyr Cynorthwyol i roi gwybodaeth anffurfiol am y cynigion diwygiedig.

Mater 2 – Dyddiadau Cyhoeddi Cynigion Diwygiedig ar gyfer Comisiynau eraill

- 4.3. Rhoddwyd gwybod i'r Comisiynwyr fod y dyddiadau cyhoeddi ar gyfer cynigion diwygiedig Comisiynau eraill y Deyrnas Unedig fel a ganlyn:
Y Comisiwn Ffiniau i Loegr – 08 Medi 2022
Y Comisiwn Ffiniau i'r Alban – 16 Tachwedd 2022
Y Comisiwn Ffiniau i Ogledd Iwerddon – 17 Tachwedd 2022

5. COFRESTR RISG

- 5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 23 Tachwedd 2022 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni a **nodwyd** y Gofrestr Risg.
- 5.2. **Nodwyd** bod BCW11 wedi cael ei dileu o'r Gofrestr Risg gan fod y Comisiwn wedi cau ei gyfnod ymgynghori terfynol.
- 5.3. **Cytunwyd** i ddileu BCW19 o'r Gofrestr Risg gan nad yw'n effeithio ar waith y Comisiwn ar gyfer Arolwg 2023 mwyach.
- 5.4. **Cam gweithredu:** Y Pennaeth Polisi a Rhaglenni i ddileu BCW19 o'r Gofrestr Risg.

6. OPSIYNAU AR GYFER ARGYMHELLION TERFYNOL

- 6.1. Ystyriodd y Comisiwn yr adroddiad dyddiedig mis Rhagfyr 2022 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.
- 6.2. Ystyriodd y Comisiwn y cynlluniau fel y'u dangoswyd yn y Papur Opsiynau.
- 6.3. Ymatebodd Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn i gwestiynau gan y Comisiynwyr.
- 6.4. Ar ôl ystyried a thrafod, **cytunodd** y Comisiwn ar Gynllun ar gyfer yr Argymhellion Terfynol a fydd yn cael ei amlinellu gan y Comisiwn yn ei Adroddiad Argymhellion Terfynol.
- 6.5. Ystyriodd y Comisiwn yr enwau ar gyfer yr etholaethau arfaethedig newydd a chytunodd ar enw ac enw amgen yn yr iaith arall ar gyfer pob etholaeth, lle y bo'n briodol.
- 6.6. **Cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn pwysleisio yn yr Adroddiad Argymhellion Terfynol fod y ddeddfwriaeth yn cyfyngu ar allu'r Comisiwn i ddatrys yr holl faterion a gyflwynwyd yn y cynrychiolaethau a dderbyniwyd.

- 6.7. Gofynnodd y Comisiynwyr i Ystadegau'r Cynllun Argymhellion Terfynol gael eu hanfon atynt.
- 6.8. Diolchodd y Dirprwy Gadeirydd i'r Ysgrifenyddiaeth am eu gwaith wrth lunio'r papur Opsiynau.
- 6.9. **Cam gweithredu:** Y Pennaeth Polisi a Rhaglenni i anfon Ystadegau'r Cynllun Argymhellion Terfynol at y Comisiynwyr.

7. FFURF YR ADRODDIAD ARGYMHELLION TERFYNOL

- 7.1. Ystyriodd y Comisiwn yr adroddiad dyddiedig mis Rhagfyr 2022 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.
- 7.2. Gofynnwyd i'r Comisiynwyr anfon sylwadau a diwygiadau ychwanegol ynglŷn â'r adroddiad argymhellion terfynol drafft at y Pennaeth Polisi a Rhaglenni. Disgwylir i'r adroddiad drafft wedi'i ddiweddarau gael ei gyflwyno i'r Comisiynwyr erbyn 11 Ionawr 2023.
- 7.3. **Cam gweithredu:** Y Comisiynwyr i anfon sylwadau a diwygiadau ychwanegol ynglŷn â'r adroddiad argymhellion terfynol drafft at y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.
- 7.4. **Cam gweithredu:** Y Pennaeth Polisi a Rhaglenni i anfon y fersiwn wedi'i diweddarau o'r adroddiad argymhellion terfynol drafft at y Comisiynwyr erbyn 11 Ionawr 2023.

8. UNRHYW FATER ARALL

- 8.1. **Cytunwyd** y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal am 10am ar 25 Ionawr 2023.
- 8.2. **Cytunwyd** y bydd y Comisiwn yn cynnal cyfweiliadau i asesu pa brosesau a weithiodd yn dda neu y gellid eu gwella er mwyn trosglwyddo gwersi a ddysgwyd ar gyfer arolygon yn y dyfodol. **Nodwyd** bod rhai argymhellion o wersi blaenorol a ddysgwyd wedi cael eu defnyddio ar gyfer polisi ac ymarfer yn rhan o Arolwg 2023.
- 8.3. Rhoddodd yr Ysgrifennydd wybod i'r Comisiynwyr fod y Comisiwn wedi nodi llety swyddfa amgen ond nad yw'n gallu cael y llety hwn o ganlyniad i gyfyngiadau yn y gyllideb. Mae'r Comisiwn wedi cael ei ddewis yn un o nifer o gyrff cyhoeddus sydd â'r opsiwn i symud i lawr uchaf diogel CP2 sydd newydd ei adnewyddu (adeilad Llywodraeth Cymru). Mae'r Comisiwn wedi edrych ar y lle hwn ac mae ganddo gwestiynau a phryderon, gan gynnwys parcio, TGCh a gwahaniad ffisegol. Mae'r Comisiwn wedi gofyn i rwystrau gael eu gosod i sicrhau bod y Comisiwn ar wahân i Weinidogion a chydweithwyr Llywodraeth Cymru. Mae trafodaethau'n parhau â Llywodraeth Cymru ac mae'r Comisiwn yn aros am fwy o wybodaeth, gan gynnwys maint y llawr a sut bydd hyn yn gweithio'n ymarferol. Mae'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi cael gwybod am y posibilrwydd o

symud. **Cytunodd** y Comisiynwyr â phryderon yr Ysgrifenyddiaeth a phwysleisiodd fod y Comisiwn yn gorff cyhoeddus annibynnol. Holodd Huw Vaughan Thomas a fyddai hyb newydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yng Nghaerdydd yn llety addas i'r Comisiwn. **Cytunodd** yr Ysgrifennydd i archwilio hyn.

- 8.4. **Cam gweithredu:** Yr Ysgrifennydd i holi a yw llety swyddfa yn hyb newydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yng Nghaerdydd yn briodol i'r Comisiwn.